Imiwneiddio Plant: Cwestiynau Cyffredin

Dyma rai cwestiynau cyffredin a allai fod yn ddefnyddiol darllen drostynt cyn mynd i apwyntiadau brechu eich plentyn.

A yw fy mhlentyn yn debygol o gael twymyn ar ôl cael ei frechu?
Efallai y bydd rhai plant ychydig yn anniddig ac yn gallu datblygu twymyn ysgafn, a ddylai bara ddim mwy na 2 ddiwrnod.

- Rhowch ddigon i'w yfed iddynt
- Rhowch paracetamol hylifol iddynt os bydd angen

NODER: peidiwch â rhoi aspirin i blant o dan 16 oed oni bai y caiff ei ragnodi gan feddyg

Pam bod angen brechlynnau penodol ar blant?
Mae brechiadau yn ystod plentyndod yn rhoi amddiffyniad rhag llawer o glefydau difrifol, ac mae'r amserlen wedi ei llunio i gynnig yr amddiffyniad gorau posibl ar yr union adeg pan fydd hi ar ei mwyaf effeithiol.

Pam fod y DU yn wahanol i wledydd eraill?
Mae'r rhan fwyaf o wledydd ledled y byd yn cynnig yr un brechlynnau i fabanod, plant ac oedolion. Y prif reswm am wahaniaethau yw bod rhai afiechydon heintus ond yn effeithio ar rai gwledydd yn fwy nag eraill, ac mae gallu gwasanaethau iechyd i ddarparu brechlynnau newydd yn amrywio.

Os yn teithio, a fydd angen mwy o frechiadau ar blant?
Yn dibynnu ar y wlad a'r gweithgareddau y bydd y plentyn yn ymwneud â nhw yno, efallai y bydd angen brechiadau ychwanegol. Cofiwch wirio gyda'ch nyrs practis neu feddyg cyn gwneud cynlluniau teithio.

Beth yw cynnwys brechlynnau ac ydyn nhw'n ddiogel?
Mae brechlynnau'n cynnwys nifer o gynhwysion gwahanol sy'n sicrhau eu bod yn gallu gweithio'n effeithiol. Mae rhai brechlynnau'n cynnwys meintiau bach iawn o firysau neu facteria sydd wedi'u gwanhau. Nid oes perygl i bobl iach ddal unrhyw afiechyd o frechlyn.
Mae'r cynhwysion mewn brechlyn yn ddiogel ac yn cael eu rheoleiddio gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Mae gwybodaeth am gynhwysion ar gael ar wefan y Compendiwm Meddyginiaethau Electronig

A oes unrhyw gelatin porc mewn brechlynnau?
Mae 'na rhai brechlynnau plant a ddefnyddir yn y DU sy'n cynnwys gelatin: Brechlyn ffliw trwynol, Brechlyn MMR. Mae'r brechlyn ffliw sydd ar ffurf chwistrelliad trwyn yn darth ysgafn a chwistrellir i fyny'r trwyn (dim nodwydd) a dyma'r ffordd orau o amddiffyn plant 2 oed a hŷn rhag y ffliw. Os yw'ch plentyn yn gymwys ar gyfer y brechlyn ffliw ond y byddai'n well gennych bod eich plentyn yn cael y brechlyn sy'n cael ei roi drwy bigiad yn hytrach nag yn y trwyn, gallwch holi eich meddyg teulu am hyn. Mae dau frechlyn MMR ar gael, un yn cynnwys gelatin (MMRVaxPro) a'r llall ddim (PRiorix). Gallwch ofyn am frechlyn di-gelatin i'ch plentyn - gofynnwch i'ch meddygfa.

A yw'n ddiogel i blentyn gael nifer o frechlynnau mewn un diwrnod (er enghraifft yn 2 fis oed, mae angen tri brechlyn)
Ydy, mae'n ddiogel i roi nifer o frechlynnau i blant ar yr un pryd, ac mae hyn hefyd yn lleihau nifer y pigiadau sydd eu hangen arnynt.

A yw'n iawn atal brechlynnau nes bod y plentyn yn hŷn?
Nid yw hyn yn ddoeth gan fod yr amserlen imiwneiddio wedi'i chynllunio fel y bydd eich plentyn yn cael ei frechu ar adeg pan fydd pob brechlyn ar ei fwyaf effeithiol.
Babanod a phlant bach yw'r rhai mwyaf agored i afiechydon a'r hiraf y byddwch yn aros i frechu eich plentyn, y mwyaf yw'r posibilrwydd y byddant yn dal y clefyd ac yn mynd yn sâl.

A yw'n ddiogel cael brechlynnau os oes gan blentyn drwyn sy'n rhedeg neu annwyd?
Os oes gan eich plentyn beswch/annwyd, does dim rheswm i ohirio apwyntiad brechu.
Os yw plentyn yn sâl gyda thwymyn, yna fel arfer bydd brechu'n cael ei ohirio tan ei fod yn well. Fel arall, eithriad fydd hi na all plentyn gael ei frechu.
Siaradwch â'ch ymwelydd iechyd, â nyrs y practis neu â'ch meddyg teulu os ydych yn pryderu a yw eich plentyn yn gallu derbyn yr holl frechlynnau ar yr amserlen imiwneiddio.

A yw'n ddiogel cael brechlynnau eraill ychydig cyn neu ar ôl cael brechiad BCG?
Nid yw'r brechlyn BCG yn rhan o'r amserlen arferol ar gyfer brechiadau, fe'i rhoddir pan gredir bod gan blentyn neu oedolyn fwy o risg o ddod i gysylltiad â thwbercwlosis.
Mae'n ddiogel cael brechlynnau eraill ar yr un diwrnod neu wedi brechiad BCG diweddar.

A yw amseru cael y brechlyn Rotavirus yn bwysig?
Mae'n bwysig bod y dos cyntaf o Rotarix yn cael ei roi yn ddeufis oed, gyda'r brechlynnau babanod cyntaf. Mae'r ail ddos yna'n cael ei roi o leiaf bedair wythnos ar ôl y dos cyntaf, gyda'r ail frechlynnau babanod.
Ni ellir rhoi y dosau (cyntaf nac ail) o rotavirus ar ôl 23 wythnos a 6 diwrnod oed, felly mae'n bwysig mynd i'ch apwyntiad pan fyddwch yn ei gael er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn cael ei amddiffyn yn llawn.

Os oes gen i ofn nodwyddau, a oes rhywun all ddal neu helpu gyda'r babi?
Oes, gallwch ofyn i nyrs neu i aelod arall o'r staff ddal eich plentyn i chi os dymunwch.

Os oes gen i efeilliaid i'w brechu, a oes rhywun all helpu?
Oes, gallwch ofyn i nyrs neu i aelod arall o'r staff helpu.

Os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod yn fanylach, mae croeso i chi ofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol Fel Meddyg Teulu, Nyrs Practis, Ymwelydd Iechyd neu Nyrs Ysgol.

https://bipcaf.gig.cymru/ imiwneiddio-plentyndod/

neu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives